

## Dechrau addysg feithrin yn rhan-amser

### Beth ydy hyn?

Addysg feithrin mewn dosbarth meithrin mewn ysgol (neu gyda darparwr gofal plant sydd wedi cofrestru ar gyfer darparu addysg feithrin): 12.5 awr yr wythnos yn ystod y tymor

### Ar gyfer pwy mae hwn?

Plant 3-4 oed ym Mro Morgannwg  
Nid yw cymhwysedd yn seiliedig ar incwm rhieni.

### Pryd dylwn i wneud cais?

Pan fydd eich plentyn yn 2 oed. Cofrestrwch i gael nodyn atgoffa i wneud cais ar ein gwefan Derbyniadau Meithrin.

### Pryd mae'n dechrau?

O'r tymor ysgol ar ôl pen-blwydd eich plentyn yn dair, cewch wybod yr union ddyddiad gan eich ysgol.

### Pryd mae'n dod i ben?

Diwedd tymor yr haf cyn i'ch plentyn ddechrau'r ysgol yn llawn-amser.  
Bydd angen i chi ailymgeisio am le ysgol llawn-amser.

### Ble rydw i'n gwneud cais?

[www.valeofglamorgan.gov.uk//DerbyniFeithrin](http://www.valeofglamorgan.gov.uk//DerbyniFeithrin)

## Y Cynnig Gofal Plant

HYD AT 48 WYTHNOS Y FLWYDDYN O GYLLID

### Beth ydy hyn?

Cyllid gofal plant mewn gofal plant cofrestredig: 17.5 awr yr wythnos yn ystod y tymor.

\* Yn ystod gwyliau'r ysgol, 30 awr yr wythnos ar gyfer tair wythnos fesul tymor.

### Ar gyfer pwy mae hwn?

Rhieni sy'n gweithio ac sy'n bodloni'r meini prawf incwm. I gael rhagor o fanylion am y meini prawf incwm ac eithriadau, ewch i'n gwefan Cynnig Gofal Plant.

### Pryd dylwn i wneud cais?

Derbynnir ceisiadau tua 8 wythnos cyn i'r cyllid ddechrau. Cofrestrwch i gael nodyn atgoffa i wneud cais ar ein gwefan Cynnig Gofal Plant.

### Pryd mae'n dechrau?

O ddechrau'r tymor ysgol ar ôl pen-blwydd eich plentyn yn dair oed. Mae'r union ddyddiadau ar ein gwefan.

### Pryd mae'n dod i ben?

Diwedd mis Awst ychydig cyn i'ch plentyn ddechrau'r ysgol yn llawn-amser.

### Ble rydw i'n gwneud cais?

[www.valeofglamorgan.gov.uk/cynniggofalplant](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cynniggofalplant)

Gallwn hefyd eich helpu i ddod o hyd i ofal plant.

## Y Cynnig Gofal Plant

a  
dechrau'r ysgol feithrin ym  
Mro Morgannwg



Wydddech chi, o'r tymor ar ôl pen-blwydd eich plentyn yn dair oed...

y caiff ddechrau addysg feithrin yn rhan-amser

a...

os ydych yn gweithio, gallech gael help tuag at gost gofal plant



Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro  
Vale Family Information Services

Helping families a gofod - Early education and care

[www.valeofglamorgan.gov.uk/cynniggofalplant](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cynniggofalplant)

